TAFLEN GWYBODAETH

Diogelwch Nwy

Pa gyfrifoldeb sydd gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) o ran diogelwch nwy?

O o dan Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) 1998 rhaid i CCG drefnu bod peiriannydd *Gas Safe* cofrestredig yn cynnal a chadw holl bibellau, offer a ffliwiau sy'n perthyn i CCG ac wedi'u darparu at eich defnydd.

Rhaid i ni hefyd drefnu gwiriad diogelwch nwy blynyddol gan beiriannydd cofrestredig *Gas Safe*. Rhaid cadw cofnod o'r gwiriad am ddwy flynedd a dylai pob tenant dderbyn copi o fewn 28 diwrnod i'r gwiriad. Byddwn yn rhannu copi gydag unrhyw denant newydd cyn iddynt symud i mewn.

Oes gan CCG unrhyw gyfrifoldebau am offer nwy sy'n perthyn i chi ar gyfer eich defnydd eich hun?

Os ydych wedi prynu a gosod offer eich hun, yna rydych chi'n gyfrifol am drefnu ei fod yn cael ei wasanaethu yn gyson, yn cael ei gynnal a'i gadw, ei drwsio, yn ogystal â chael gwiriad diogelwch blynyddol gan beiriannydd *Gas Safe*.

Mae 'offer' yn golygu tân nwy neu bopty, gan gynnwys unrhyw offer LPG.

Hyd yn oed os ydych wedi derbyn caniatâd i osod yr offer gan CCG, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau diogelwch yr offer.

Yn unol â'n polisi gwresogi nid yw CCG erbyn hyn yn cefnogi ceisiadau gan denantiaid i osod eu tannau nwy eu hunain.

Beth yw cyngor CCG o ran defnyddio gwresogyddion symudol LPG?

Gwresogyddion LPG yw'r gwresogyddion y gellir eu symud o un ystafell i'r llall ar olwynion ac fel arfer gyda silindr nwy 'butane' y tu mewn. Rydym yn ymwybodol bod y rhain yn cael eu defnyddio heb feddwl dwywaith am yr angen i'w cynnal a'u cadw. Ein cyngor ni yw na ddylid eu defnyddio am resymau diogelwch.

Oes gan CCG gyfrifoldeb i wirio ffliwiau a simneiau?

Oes. Dim ots pwy sydd berchen ar y tân nwy sydd wedi'i osod yn eich cartref, bydd CCG yn cynnal gwiriad blynyddol ar eich ffliw/simnai - mae hyn yn cynnwys tynnu eich tân nwy sydd wedi'i osod.

Yn unol ag arweiniad technegol, yn dilyn gwiriad ffliw/simnai, bydd y tân nwy yn cael ei ail-osod a rhaid cynnal gwiriad diogelwch nwy arno a'i brofi i sicrhau fod y tân yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Cofiwch os oes gennych dân nwy, nid yw CCG yn gyfrifol am gynnal a chadw, gwasanaethu na thrwsio eich tân nwy, ar wahân i wirio ein bod wedi gadael eich tân mewn cyflwr diogel wedi i ni ei dynnu yn ystod y gwiriad ffliw/simnai.

Oes rhaid i mi ganiatáu mynediad i'r peiriannydd nwy i'm cartref?

Oes. Mae gan CCG ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau fod holl offer nwy, olew a thanwydd solet sy'n cael eu darparu yn ddiogel ac yn cael eu harchwilio yn rheolaidd, felly mae eich cydweithrediad chi yn hanfodol.

AROGLI NWY?
FFONIWCH 0800 111 999.
GALL ACHUB BYWYDAU!

Am fwy o wybodaeth:

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar **0300 123 8084** neu ymholiadau@ccgwynedd.org.uk / www.ccgwynedd.org

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Gas Safety

What responsibility does Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) have for gas safety?

Under the Gas Safety (Installation and Use) Regulations 1998 CCG must arrange maintenance by a Gas Safe registered engineer for all pipe work, appliances and flues which we own and have provided for your use.

We must also arrange an annual gas safety check to be carried out by a Gas Safe registered engineer. A record must be kept of the check for two years and a copy issued to each existing tenant within 28 days of the check. We'll also issue a copy to any new tenants before they move in.

Does CCG have any responsibilities for gas appliances that you own and have provided for your own use?

If you've purchased and installed an appliance for your own use then you are responsible for making sure it is regularly serviced, maintained and repaired as well as arranging an annual safety check by a Gas Safe registered engineer.

An 'appliance' is a fitted gas fire or cooker, including LPG.

Even if you've had permission by CCG to install an appliance, you are still responsible.

In line with our heating policy, CCG no longer permits tenants to fit their own gas fires.

What is CCG's advice on LPG cabinet portable heaters?

LPG cabinet space heaters can be moved from one room to another on casters and typically have a butane gas cylinder inside. These heaters are known to be used without any thought given to their regular maintenance. CCG advises against their use on safety grounds.

Does CCG have a responsibility to check flues and chimneys?

Yes. Regardless of who owns the gas fire fitted in your home, CCG will carry out an annual check on your flue/chimney – this means removing your fitted gas fire.

In line with technical guidance, following the flue/chimney check, the gas fire will be re-fitted and must be subject to a gas safety check and tested to ensure that the fire is safe for use.

Remember – if the gas fire is owned by you, CCG is not responsible for maintaining, servicing or repairing it, other than to check that we leave it in a safe condition following the flue/chimney check.

Do I have to let the gas engineer into my home?

Yes. CCG has a legal obligation to make sure that all gas, oil and solid fuel appliances provided are safe and inspected regularly, so your co-operation is essential.

SMELL GAS?
CALL 0800 111 999.
IT COULD SAVE LIVES!

For more information

For more information, please contact us on **0300 123 8084** or enquiries@ccgwynedd.org.uk / www.ccgwynedd.org

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD